

Cwestiynau cyffredin

Cynnwys

Cwestiynau generig	3
1. Pam ydych chi'n gwneud y newidiadau hyn?	3
2. Pam ydych chi'n cynnal ymgynghoriad?.....	3
3. Pam ydych chi'n dod â'r newidiadau hyn i mewn ar adeg pan fo costau byw a chostau gweithredol i fusnesau yn faterion mor fawr?.....	3
4. Beth yw manteision y newidiadau hyn?.....	4
5. A fydd CNC yn gwneud unrhyw elw o'r ffioedd uwch hyn?.....	4
6. Beth sy'n cael ei adolygu?.....	4
7. Pam mae cost trwydded yn wahanol o gyfundrefn i gyfundrefn?	5
8. Beth mae'r broses drwyddedu yn ei chynnwys?.....	5
9. Ydych chi wedi edrych ar y broses ymgeisio i'w gwneud yn fwy effeithlon ac i leihau costau?	6
10. Pwy fydd angen cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig hyn?	6
11. Pryd fydd y newidiadau yn cael eu gweithredu?.....	6
12. Sut galla i fynegi fy marn?	6
13. Sut fyddwch chi'n cyfathrebu canlyniad yr ymgynghoriad?.....	6
14. Ydych chi'n gallu dangos sut y penderfynoch chi ar y ffioedd?.....	7
15. Beth ydych chi'n ei olygu wrth 'yn briodol'?.....	7
Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd	8
16. Sut byddaf yn gwybod a oes angen Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd ar fy nghais (HRA)?	8
Rheoliad Gwastraff a Diwydiant.....	8
17. Pam nad ydych chi bellach yn defnyddio'r offeryn Arfarnu Risg Gweithredol (OPRA)? Mae'n gyfarwydd i ni, ac mae wedi gweithio'n dda ers amser maith. ...	8

18. Sut byddaf yn gwybod faint y bydd fy nghais yn ei gostio, o ystyried y cydrannau codi tâl newydd rydych chi'n eu cynnig (tâl sylfaen a thaliadau modiwlaidd ychwanegol)?9
19. Beth yw'r pedwar band rheoleiddio/gwastraff diwydiant a sut mae gwybod pa un sy'n berthnasol i fy nghais?9
20. A fydd y cynnydd mewn ffioedd yn rhwystr mynediad ar gyfer cwmnïau gwastraff newydd?9
21. Pryd fydd taliadau 'amser a deunyddiau' yn cael eu defnyddio?9

Ansawdd Dŵr 10

22. Sut ydw i'n gwybod pa fath o amrywiad sy'n berthnasol i mi? 10
23. A fydd gostyngiad ar gyfer amrywiadau lluosog? 11

Trwyddedu Rhywogaethau..... 11

24. Pam ydych chi'n cyflwyno taliadau am drwyddedu rhywogaethau pan nad yw CNC erioed wedi codi tâl am y rhain o'r blaen? 11

Cwestiynau generig

1. Pam ydych chi'n gwneud y newidiadau hyn?

Rydym yn gwneud y newidiadau hyn oherwydd nid yw ein taliadau presennol yn adlewyrchu'r gost o ddarparu ein gwasanaeth i chi. Mae angen i ni weithredu'r newidiadau hyn er mwyn adennill ein costau.

Fel corff Llywodraeth Cymru, rhaid i CNC gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn '[Rheoli arian cyhoeddus Cymru](#)'. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol inni adennill costau'r gwasanaethau rheoleiddio yr ydym yn eu darparu yn llawn gan y rhai sy'n eu defnyddio, yn hytrach na chael y gwasanaethau hynny wedi'u hariannu drwy drethiant cyffredinol.

Dyma'r adolygiad eang cyntaf o ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ers i ni gael ein sefydlu yn 2013. Mae'r rhan fwyaf o ffioedd CNC wedi aros yr un fath ers hynny gyda chostau'n cael eu cadw'n is na chwyddiant.

Mae CNC yn wynebu pwysau sylweddol ar ein hadnoddau. Os na fyddwn yn newid y ffordd rydym yn codi tâl am ein gwasanaethau, byddwn yn parhau i weld gostyngiad yn ein cronfa o sgiliau technegol a dibyniaeth barhaus ar gyllid cyhoeddus. Yn ogystal â hyn ni fyddwn yn gallu sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

O ganlyniad, mae ein cynigion yn neilltuo'r gost o benderfynu ar ganiatâd, cofrestru, trwydded neu gysyniad i'r ymgeisydd sydd yn cael budd o'r caniatâd hwnnw, ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar gyllid trethdalwyr.

2. Pam ydych chi'n cynnal ymgynghoriad?

Rydym am ddeall sut y byddai ein cynigion yn effeithio ar y rhai sy'n gwneud cais i CNC am ganiatâd i ymgymryd â gweithgaredd. Rydym yn croesawu sylwadau gan bawb sydd â diddordeb (gan gynnwys deiliaid trwyddedau, cymdeithasau masnach, awdurdodau lleol, sefydliadau anllywodraethol, ac aelodau'r cyhoedd).

Dyma eich cyfle i ddweud wrthym sut y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio arnoch chi a rhoi unrhyw wybodaeth ategol rydych chi'n meddwl sy'n berthnasol. Ceir rhagor o wybodaeth am egwyddorion ac effeithiau'r cynigion hyn o fewn y dogfennau ymgynghori.

Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion y byddwn yn eu derbyn cyn i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben ar 7 Ionawr 2023. Bydd y sylwadau a dderbyniwn yn llywio ein cyflwyniad terfynol ar y cynigion hyn i Lywodraeth Cymru yng Ngwanwyn 2023.

3. Pam ydych chi'n dod â'r newidiadau hyn i mewn ar adeg pan fo costau byw a chostau gweithredol i fusnesau yn faterion mor fawr?

Mae hyn yn ymwneud â sicrhau system decach fydd yn gweld busnesau yn talu am gostau'r gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio, yn hytrach na threthdalwyr.

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y bydd ein cynigion codi tâl yn eu cael ar rai sectorau busnes, yn enwedig wrth i'n cynigion gyd-fynd â phwysau ariannol ehangach fel codiadau chwyddiant.

Mae CNC yn wynebu pwysau sylweddol ar ein hadnoddau. Os na fyddwn yn newid y ffordd rydym yn codi tâl am ein gwasanaethau, byddwn yn parhau i weld gostyngiad yn ein cronfa o sgiliau technegol a dibyniaeth barhaus ar gyllid cyhoeddus. Yn ogystal â hyn ni fyddwn yn gallu sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

4. Beth yw manteision y newidiadau hyn?

- Bydd yn rhoi mwy o eglurder ar yr hyn yr ydym yn codi tâl amdano a pham.
- Bydd yn darparu tegwch yn y farchnad i fusnesau cyfreithlon.
- Bydd y busnes neu berson sy'n gwneud cais am ganiatâd yn talu'r gost heb iddo gael ei sybsideiddio gan drethdalwyr.
- Bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein Rheolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol, a nodau Llesiant.
- Bydd yn rhoi cyfle i ni ddarparu gwasanaeth rheoleiddio gwell, gwarchod yr amgylchedd, ac atal llygredd rhag digwydd yn y lle cyntaf.

5 A fydd CNC yn gwneud unrhyw elw o'r ffioedd uwch hyn?

Na, dim ond ein helpu i adennill costau'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu fydd y ffioedd arfaethedig.

Rhaid i CNC weithio'n unol ag egwyddorion ['Rheoli arian cyhoeddus Cymru'](#) Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyfarwyddo na ddylem wneud elw na cholled o'n gweithgareddau rheoleiddio. Dim ond adennill ein costau y caniateir i ni ei wneud.

6 Beth sy'n cael ei adolygu?

Rydym yn cynnig newid ffioedd cais ar gyfer:

- Trwyddedau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol:
 - Rheoli gwastraff
 - Prosesau diwydiannol
 - Gollwng elifion dŵr wedi'i drin i'r amgylchedd dŵr
 - Sylweddau ymbelydrol
 - Cyfarpar Hylogi Canolig
- Trwyddedau tynnu dŵr a chronni dŵr
- Trwyddedau rhywogaethau
- Cofrestriadau cronfeydd dŵr.

Rydym yn cynnig cyflwyno ffioedd am rai o'r ceisiadau Trwyddedau Rhywogaethau rydym yn eu derbyn.

Mae sawl cyfundrefn ychwanegol nad ydym yn bwriadu gwneud newidiadau iddyn nhw ar hyn o bryd, gan gynnwys Rheoli Perygl Llifogydd, Morol, Coedwigaeth a Rheoli Defnydd Tir.

Rydym hefyd wedi cynnwys ein hadolygiad cynhaliaeth blynyddol yn yr ymgynghoriad hwn.

7 Pam mae cost trwydded yn wahanol o gyfundrefn i gyfundrefn?

Bydd gan wahanol gyfundrefnau wahanol ddeddfwriaeth berthnasol a rheolau trwyddedu sy'n cael eu defnyddio ar gyfer penderfynu ar gais. O ganlyniad, bydd y broses o benderfynu ar gais yn amrywio ar gyfer pob math o drwydded, yn dibynnu ar yr wybodaeth sydd ei hangen a'r ffactorau sydd angen eu hasesu. Efallai y bydd angen i ni ofyn am fwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd hefyd, neu gan arbenigwyr pwnc o fewn CNC.

Bydd ein ffioedd arfaethedig ond yn adennill costau CNC a bydd yn adlewyrchu'r strwythurau costau gwahanol rhwng gwahanol gyfundrefnau.

8. Beth mae'r broses drwyddedu yn ei chynnwys?

Pan fyddwn yn derbyn cais am drwydded, mae'n cael ei gofnodi, a chynhelir cyfres o wiriadau i wneud yn siŵr ei fod yn gyflawn ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom.

Os yw'r cais yn pasio'r prawf hwn yn llwyddiannus, bydd yn symud i'r cyfnod penderfynu lle caiff ei asesu yn erbyn deddfwriaeth a rheolau caniatáu.

Bydd gan wahanol gyfundrefnau ddeddfwriaeth berthnasol a rheolau trwyddedu gwahanol ar gyfer penderfynu ar gais. O ganlyniad, bydd y broses o benderfynu ar gais yn amrywio ar gyfer pob math o drwydded, yn dibynnu ar yr wybodaeth sydd ei hangen a'r ffactorau sydd angen eu hasesu. Efallai y bydd angen i ni ofyn am fwy o wybodaeth wrth yr ymgeisydd hefyd, neu wrth arbenigwyr pwnc o fewn CNC.

Yn dibynnu ar y math o gais, mae'n bosibl y bydd gofyn i ni ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, fel y byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Os felly, mae'r ymatebion sy'n cael eu derbyn yn cael eu hadolygu a'u hystyried.

Ar ôl i ni dderbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom, rydym yn gwneud y penderfyniad i gymeradwyo neu wrthod y cais. Mae trwyddedau sy'n cael eu rhoi yn cynnwys amodau y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded gydymffurfio â nhw er mwyn atal llygredd a niwed i iechyd. Mae'r ymgeisydd yn cael gwybod, a phan fo'r cais yn llwyddiannus, mae trwydded yn cael ei chyhoeddi.

Rydym yn cadw Cofrestr Gyhoeddus er mwyn gweld trwyddedau a chydymffurfiaeth deiliaid â gofynion eu trwydded.

Bydd ein ffioedd arfaethedig ond yn adennill costau CNC a bydd yn adlewyrchu'r strwythurau costau gwahanol rhwng gwahanol gyfundrefnau.

9. Ydych chi wedi edrych ar y broses ymgeisio i'w gwneud yn fwy effeithlon ac i leihau costau?

Rydym wedi adolygu ein proses drwyddedu, ac er ein bod bob amser yn ymdrechu i wella ein perfformiad, rydym yn fodlon bod y taliadau a gynigir yn adlewyrchu'r gwaith sydd ei angen.

Mae gwelliannau'r broses a'r arbedion effeithlonrwydd a nodwyd gennym wedi lleihau'r cynnydd arfaethedig.

Rydym wedi nodi newidiadau y mae angen i ni eu gwneud i ganllawiau ar gyfer cwsmeriaid ar ein gwefan ac mae gwelliannau ar y gweill. Bydd unrhyw gamau pellach i sicrhau effeithlonrwydd yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau tâl yn y dyfodol.

10. Pwy fydd angen cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig hyn?

Pan fydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dod i ben ar 7 Ionawr 2023, byddwn yn ystyried y sylwadau yr ydym yn eu derbyn a byddwn yn cwblhau ein cynigion ar gyfer taliadau.

Bydd y cynigion tâl terfynol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd CNC i'w cymeradwyo. Yn amodol ar eu penderfyniad, byddem wedyn yn ceisio cymeradwyaeth i'w gweithredu gan Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru.

11. Pryd fydd y newidiadau yn cael eu gweithredu?

Yn amodol ar yr ymatebion i'r ymgynghori a chymeradwyaeth gan Fwrdd CNC a Llywodraeth Cymru, rydym yn anelu at weithredu'r ffioedd newydd ym mis Ebrill 2023.

Mae ein hymgyngoriad ffurfiol ar y taliadau hyn yn lansio ar 10 Hydref 2022. Bydd yn fyw am 12 wythnos ac yn dod i ben ar 7 Ionawr 2023.

12. Sut galla i fynegi fy marn?

Rydym wedi datblygu holiadur ar-lein i gasglu ymatebion i'n cynigion. Rydym eisiau gwybod sut y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio arnoch chi ac rydym yn eich annog i roi unrhyw wybodaeth ategol rydych chi'n meddwl sy'n berthnasol.

Mae'r pecyn o ddogfennau sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn yn helaeth, gan gwmpasu sawl maes rheoleiddio. Mae wedi ei rannu'n adrannau sy'n caniatáu i chi edrych ar ychydig o'r wybodaeth, neu'r holl wybodaeth, yn dibynnu ar beth sy'n berthnasol i chi. Yn yr un modd, gallwch ymateb i'r holl gwestiynau yn yr ymgynghoriad neu dim ond y rhai rydych chi'n teimlo sy'n uniongyrchol berthnasol.

Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion y byddwn yn eu derbyn cyn i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben ar 7 Ionawr 2023. Bydd y sylwadau a dderbyniwn yn llywio ein cyflwyniad terfynol ar y cynigion hyn i Lywodraeth Cymru.

13. Sut fyddwch chi'n cyfathrebu canlyniad yr ymgynghoriad?

Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud pob sylw (heb gynnwys gwybodaeth bersonol) a'n hymatebion iddynt ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan.


14. Ydych chi'n gallu dangos sut y penderfynoch chi ar y ffioedd?

Ydyn, defnyddiodd CNC egwyddorion adennill costau llawn, yn unol â chynllun '[Rheoli arian cyhoeddus Cymru](#)' i gyrraedd y taliadau arfaethedig.

Rydym wedi cyfrifo pob ffi cais drwy nodi'r gweithgareddau uniongyrchol sy'n ymwneud â phennu pob math o ganiatâd/trwydded, pa mor hir y maent yn ei gymryd ac ar ba gost.

Yna, gwnaethom gymhwyso dyraniad teg a chymesur o gost gweithgareddau anuniongyrchol, yn seiliedig ar lefel y gweithgaredd uniongyrchol.

Datblygu tâl y cais



Gellir gweld rhagor o wybodaeth a'r rhestr gyflawn o gostau y gellir eu hadennill drwy ein taliadau, yma: '[Rheoli arian cyhoeddus Cymru](#)'.

15. Beth ydych chi'n ei olygu wrth 'yn briodol'?

Yn briodol yw'r broses yr ydym yn ei chynnal i wirio a yw cais am drwydded yn barod i ni ddechrau penderfynu arno. Rhaid gwneud cais am drwydded yn briodol cyn y gallwn ddechrau penderfynu. Er enghraifft, p'un a yw'r ffurflenni cywir wedi eu cwblhau, a gafodd y ffi gywir ei hanfon ac a ydym wedi derbyn digon o wybodaeth. Ar ôl i ni benderfynu ein bod wedi derbyn popeth sydd ei angen i barhau, dywedir bod eich cais wedi'i 'wneud yn briodol'. Efallai y byddwn yn dal i ofyn am ragor o wybodaeth gennyh wrth i'ch cais fynd yn ei flaen.

Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd

16. Sut byddaf yn gwybod a oes angen Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd ar fy nghais (HRA)?

Mae angen cynnal HRA os yw'r gwaith arfaethedig naill ai o fewn neu'n ddigon agos i effeithio ar rai safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer eu rhywogaethau neu werth cynefin, er enghraifft Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SACs), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPAs) neu safleoedd Ramsar. Diben yr HRA yw penderfynu a allai unrhyw un o'r cynefinoedd neu'r rhywogaethau y mae'r safle wedi'i ddynodi ar eu cyfer gael eu heffeithio gan y gwaith arfaethedig.

Ar ôl dilysu cais am drwydded tynnu dŵr neu Gronni, byddem yn ymgymryd â sgrinio manwl a byddai hyn yn nodi'r posibilrwydd o'r angen am HRA. Byddai cadarnhad o'r gofyniad am HRA a beth i'w gynnwys o fewn yr aseiad dim ond yn digwydd yn ystod y cyfnod penderfynu.

Os oes angen HRA, os ydych yn 'awdurdod cymwys' o dan reoliad 7 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, dylai eich cais am drwydded tynnu dŵr neu Gronni gynnwys HRA wedi'i gwblhau a gynhaliwyd yn unol â Rheoliad 63. Os nad ydych yn awdurdod cymwys, rôl CNC yw ymgymryd â'r HRA os oes angen un.

Mae ardaloedd gwarchodedig yng Nghymru i'w gweld yma:

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Canfod ardaloedd gwarchodedig o dir a môr](#)

Rheoliad Gwastraff a Diwydiant

17. Pam nad ydych chi bellach yn defnyddio'r offeryn Arfarnu Risg Gweithredol (OPRA)? Mae'n gyfarwydd i ni, ac mae wedi gweithio'n dda ers amser maith.

Nid yw taliadau a gyfrifir gan OPRA bellach yn adlewyrchu'r gost/ymdrech i CNC o benderfynu ar gais am drwydded.

Rydym wedi cynnig ystod o daliadau sylfaen sefydlog sy'n talu'r gost o'r gwaith y mae'n rhaid i ni ei wneud ar bob cais am drwydded gwastraff a gosod a dderbyniwn.

Yna bydd ymgeisydd yn talu cost sefydlog ar gyfer pob cynllun ychwanegol y gallai fod angen i ni ei asesu, yn dibynnu ar y math o weithgaredd y gwneir cais amdano a'r lleoliad.

Os yw'r amser a dreulir gan CNC ar benderfynu trwydded yn fwy na'r amser cyfartalog i bennu gan fwy na hanner (mewn geiriau eraill, 150% o'r amser cyfartalog costus), byddwn yn cymhwyso taliadau amser a deunyddiau i adennill ein costau.

Bydd taliadau amser a deunyddiau yn cael eu hanfonebu mewn ôl-ddyledion. Nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd yn aml a byddwn yn trafod gyda'r ymgeisydd cyn ystyried unrhyw dâl.

Credwn fod hyn yn decach na chynyddu taliadau am geisiadau trwydded symlach i dalu am gost yr ychydig drwyddedau cymhleth iawn sy'n cymryd llawer mwy o amser i benderfynu.

18. Sut byddaf yn gwybod faint y bydd fy nghais yn ei gostio, o ystyried y cydrannau codi tâl newydd rydych chi'n eu cynnig (tâl sylfaen a thaliadau modiwlaidd ychwanegol)?

Bydd offer a chanllawiau ar gael ar ein gwefan i'ch galluogi i gyfrifo'r tâl gwneud cais.

19. Beth yw'r pedwar band rheoleiddio/gwastraff diwydiant a sut mae gwybod pa un sy'n berthnasol i fy nghais?

Mae'r pedwar band ond yn berthnasol i Osodiadau sy'n defnyddio OPRA ar hyn o bryd - mae gan wastraff un gyfradd godi tâl ar gyfer y ceisiadau a fyddai'n defnyddio OPRA ar y pryd.

Rydym yn datblygu teclyn y bydd ymgeiswyr yn ei gwblhau ochr yn ochr â'u ffurflen gais er mwyn penderfynu pa fand y byddant yn cael eu codi. Mae'r ffactorau penderfynu yn cynnwys faint o wahanol weithgareddau rhestredig sydd o fewn y gosodiad, y gallu cynhyrchu, p'un a ydynt yn trin gwastraff peryglus, a yw'r safle yn llosgydd tirlenwi neu wastraff, ac a oes canllawiau Technegau Gorau ar Gael ar gyfer y broses.

Gan fod yr offeryn yn dal i gael ei ddatblygu gall y rhestr hon newid, ond y nod yw cynnwys ffactorau sy'n gwneud y cais yn fwy cymhleth i benderfynu.

20. A fydd y cynnydd mewn ffioedd yn rhwystr mynediad ar gyfer cwmnïau gwastraff newydd?

Ni ddylai busnesau gwastraff newydd gael eu rhwystro rhag gweithredu yn y diwydiant Gwastraff. Mae eithriadau gwastraff ar gyfer rhai gweithgareddau sydd am ddim i'w cofrestru a byddant yn caniatáu i rai busnesau gwastraff weithredu heb fod angen trwydded.

Mae Trwyddedau Rheolau Safonol hefyd ar gael i reoleiddio gweithgareddau risg is penodedig sydd angen eu caniatáu.

21. Pryd fydd taliadau 'amser a deunyddiau' yn cael eu defnyddio?

Mae dwy sefyllfa lle rydym yn bwriadu cyflwyno taliadau yn seiliedig ar 'amser a deunyddiau' wrth benderfynu ar geisiadau tirlenwi, a phan fo'r gost yn fwy na'r tâl trwydded fel y manylir isod.

Bydd asesiadau ychwanegol ar gyfer penderfynu ar agweddau penodol ar safleoedd tirlenwi cais am drwydded yn cael eu codi fel 'amser a deunyddiau' dros y tâl sylfaenol, ac unrhyw gynlluniau modiwlwr ychwanegol sydd eu hangen.

Os yw'r amser a dreulir gan CNC ar benderfynu trwydded yn fwy na'r amser cyfartalog i bennu gan fwy na hanner (mewn geiriau eraill, 150% o'r amser cyfartalog costus), byddwn yn cymhwyso taliadau amser a deunyddiau i adennill ein costau.

Bydd taliadau amser a deunyddiau yn cael eu hanfonebu mewn ôl-ddyled. Nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd yn aml a byddwn yn trafod gyda'r ymgeisydd cyn ystyried unrhyw dâl.

Credwn fod hyn yn decach na chynyddu taliadau am geisiadau trwydded symlach i dalu am gost yr ychydig drwyddedau cymhleth iawn sy'n cymryd llawer mwy o amser i'w penderfynu.

Ansawdd Dŵr

22. Sut ydw i'n gwybod pa fath o amrywiad sy'n berthnasol i mi?

Yn ôl Canllawiau EPR 2016, 'Rhaid i reoleiddwyr ganiatáu taliadau gwahanol ar gyfer gwahanol gategoriâu o gais amrywiadau. Mae hyn er mwyn caniatáu dull a all adlewyrchu faint o ymdrech y mae'r rheoleiddiwr yn ei roi i benderfynu ar y cais, yr effaith amgylcheddol neu'r risg bosibl; a maint cyfranogiad y cyhoedd.'

a) Gweinyddol

Newid neu gywiro:

- enw neu gyfeiriad ond lle nad yw'r endid cyfreithiol wedi newid
- Cyfeirnod Grid Cenedlaethol i wella cywirdeb
- gwallau argraffyddol
- dyddiad dechrau trwydded
- lleoliad allfa – nid oes angen asesiad technegol newydd.

b) Mân

Mae newidiadau angen rhywfaint o fewnbwn technegol gan CNC ond llawer llai nag ar gyfer amrywiad normal:

- lleoliad allfa
- cyfaint y gollyngiad.

c) Normal

Mae newidiadau yn gofyn am fewnbwn technegol gan CNC:

- lleoliad allfa sy'n gofyn am adolygiad o unrhyw asesiad o sylwedd neu gynefin sy'n bodoli
- lleihau llif pasio ymlaen ar gyfer gollyngiadau carthion storm ysbeidiol
- cyfaint neu ansawdd (neu gynnwys) gollyngiad.

d) Sylweddol

Mae angen asesiad sylweddol:

- newid cyfaint neu newid ansawdd gollyngiad ac mae angen asesiad newydd o derfynau allyriadau ar gyfer sylweddau penodol.
 - Sylweddau penodol yw:
 - llygryddion peryglus ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr
 - sylweddau peryglus neu lygryddion nad ydynt yn beryglus ar gyfer gweithgareddau dŵr daear
- asesiad o sylwedd neu gynefin newydd.

e) Ar Gais Rheoleiddiwr

Mae'r tâl yn gyfwerth â'r tâl a fyddai wedi bod yn daladwy pe bai'r amrywiad wedi'i wneud mewn ymateb i gais.

23. A fydd gostyngiad ar gyfer amrywiadau lluosog?

Rydym yn gweithio tuag at adennill costau llawn y gwasanaeth trwyddedu ansawdd dŵr ac felly ni allwn ddarparu unrhyw ostyngiadau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol i'w hystyried fesul achos.

Trwyddedu Rhywogaethau

24. Pam ydych chi'n cyflwyno taliadau am drwyddedu rhywogaethau pan nad yw CNC erioed wedi codi tâl am y rhain o'r blaen?

Mae trwyddedu rhywogaethau yn cael ei drin yn gyson â'r holl gyfundrefnau yn ein hadolygiad, felly mae'r egwyddor o adennill costau llawn yn berthnasol.

Fel corff Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i CNC gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn '[Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru](#).' Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol inni adennill costau'r gwasanaethau rheoleiddio a ddarparwn yn llawn oddi wrth y rhai sy'n elwa arnynt, yn hytrach nac ariannu gwasanaethau hynny drwy drethiant cyffredinol.

Nid ydym yn cynnig codi tâl ar bob maes trwyddedu rhywogaethau; rydym yn cynnig hepgoriadau i'r meysydd hynny lle byddai codi tâl yn wrthgynhyrchiol yn amgylcheddol.

[DIWEDD]